**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Adroddiad: CA(3)-16-10: 17 Mehefin 2010**

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd.tv:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200002_17_06_2010&t=0

**Amser: 13.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Janet Ryder, Gogledd Cymru (Cadeirydd)
Mike German, Dwyrain De Cymru
William Graham, Dwyrain De Cymru
Rhodri Morgan, Gorllewin Caerdydd

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2 neu 15.3**

*Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad (y Weithdrefn Negyddol)*

- **CA449** - Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010
  **Gweithdrefn:** Negyddol
  **Fe'u gwnaed:** 25 Mai 2010
  **Fe'u gosodwyd:** 27 Mai 2010
  **Yn dod i rym:** 18 Mehefin 2010

- **CA450** - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010
  **Gweithdrefn:** Negyddol
  **Fe'u gwnaed:** 26 Mai 2010
  **Fe'u gosodwyd:** 27 Mai 2010
  **Yn dod i rym:** 18 Mehefin 2010

- **CA451** - Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2010
  **Gweithdrefn:** Negyddol
  **Fe'u gwnaed:** 27 Mai 2010
  **Fe'u gosodwyd:** 3 Mehefin 2010
  **Yn dod i rym:** 24 Mehefin 2010

**Busnes arall**

**Ymateb Edwina Hart MBE AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i lythyr y Cadeirydd ynghylch CA437– Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010**

Nododd y Pwyllgor ymateb Edwina Hart MBE AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i lythyr y Cadeirydd ynghylch Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010 (CA437).

**Ymateb Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, i lythyr y Cadeirydd ynghylch CA440 – Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010**

Nododd y Pwyllgor ymateb Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, i lythyr y Cadeirydd ynghylch Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010 (CA440).

**Ymateb Edwina Hart MBE AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i lythyr y Cadeirydd ynghylch CA428 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2010**

Nododd y Pwyllgor ymateb Edwina Hart MBE AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i lythyr y Cadeirydd ynghylch Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2010 (CA428).

Nododd y Pwyllgor hefyd fod cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi trafod rheoliadau diwygio drafft a bod disgwyl i'r rheoliadau gael eu gosod yn fuan.

**Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) – gwybodaeth ychwanegol**

Nododd y Pwyllgor wybodaeth ychwanegol am y dulliau diogelu sydd wedi'u cynnwys ym Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) i sicrhau annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg a Thribiwnlys y Gymraeg ar Weinidogion Cymru. Darparwyd y wybodaeth gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cynghorwyr Cyfreithiol ddarparu copi o'r nodyn a baratowyd ar gyfer Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 a oedd yn dangos sut yr oedd trefniadau penodi, tymor swydd a diswyddo'r Comisiynydd yn cymharu â threfniadau pobl a gaiff eu penodi i swyddi tebyg.

Gofynnwyd hefyd am gyngor ar gylch gwaith y Pwyllgor ynglŷn â'i ystyriaeth o Fesurau.

**Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)**

Penderfynodd y Pwyllgor graffu ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) a gwahodd Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog dros Blant i roi tystiolaeth yn y cyfarfod ar 1 Gorffennaf 2010.

**Ystyried Adroddiadau Drafft ar y Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru) a'r Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod adroddiadau drafft ar y Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru) a'r Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru).

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**17 Mehefin 2010**